# Cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r safon yn cynnwys paratoi ar gyfer gweithgareddau unigol a grŵp sy’n newydd a pharhaus, cefnogi cyfranogiad a chyfrannu at werthuso'r gweithgareddau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau
3. gweithio mewn partneriaeth i gadarnhau canlyniadau gweithgareddau yn unol â dewisiadau, anghenion, a chynlluniau gofal neu gymorth unigolion
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chytuno ar y cymorth mae unigolion yn ei ffafrio i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a pharhaus
5. helpu unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau
6. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
7. annog a helpu unigolion pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau
8. helpu unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae'r gweithgareddau wedi cwrdd â dewisiadau, anghenion a'r canlyniadau y mae unigolion wedi cytuno arnynt
9. cyfrannu at adborth ar sut roedd gweithgareddau wedi cwrdd â dewisiadau, anghenion a'r canlyniadau y mae unigolion wedi cytuno arnynt
10. gweithio mewn partneriaeth i gyfrannu at y newidiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl gweithgareddau ar hunaniaeth a hunan-barch unigolion
2. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau, a'i hadolygu
3. sut mae cael gafael ar asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg ar gyfer gweithgareddau unigol a grŵp, a'u dilyn
4. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp
5. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol unigolion drwy addasu gweithgareddau
6. sut mae ystyried anghenion unigolion o ran hygyrchedd er mwyn darparu amgylchedd diogel ar gyfer gweithgareddau
7. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar ddewis a chymryd rhan mewn gweithgareddau
8. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion yn ystod gweithgareddau, a sut i gael gafael arnynt
9. y mathau o arferion cynaliadwy y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau
10. y gwahanol fathau o weithgareddau unigol a grŵp a'r canlyniadau y byddant yn eu cyflawni
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
12. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all helpu unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
13. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar weithgareddau
14. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
15. sut mae helpu rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau
16. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymorth sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion â gweithgareddau
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau
21. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod gweithgareddau unigol a grŵp
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion â gweithgareddau, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion â gweithgareddau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD220 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithgareddau, Cymryd Rhan, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |